**Claire Clancy**
Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
Chief Executive and Clerk of the Assembly

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd

15 Mawrth 2016

Annwyl Jocelyn

Yn dilyn cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y gwaith craffu a wnaed ar Gyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2016-2017, rwyf yn ysgrifennu atoch er mwyn rhoi diweddariad pellach i chi mewn perthynas ag argymhelliad 4, sef:

> *Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r problemau sy'n gysylltiedig â gwefan y Cynulliad gael eu hadolygu fel mater o flaenoriaeth, a hoffai dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn a gyflawnir yn y maes hwn cyn diwedd y Cynulliad.*

Mae'r Comisiwn yn cytuno â'r argymhelliad hwn, ac rydym yn darparu manylion ynghylch ein cynlluniau i wella'r wefan. Rwyf yn falch o ddweud y bydd y newidiadau a ganlyn yn weithredol ar wefan y Cynulliad ar 22 Ebrill:

- hafan newydd â chynllun newydd iddi sy'n hwyluso mynediad at newyddion a gwybodaeth gyfredol;
- safle mwy amlwg i Fusnes y Cynulliad;
- system we-lywio newydd, sy'n cynnwys 'mega-ddewislenni' ar dabiau'r hafan sy'n caniatáu i'r defnyddiwr we-lywio'n hawdd a dod o hyd i wybodaeth berthnasol a chyfredol;

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Claire.Clancy@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6230

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Claire.Clancy@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6230

- cynlluniau newydd ar gyfer gwybodaeth y pwyllgorau, gan gynnwys gosod fideo a delweddau;

- defnydd ehangach o fideo, Senedd.tv a gwybodaeth 'thema' a fydd yn gwella profiad y defnyddiwr;
- gwelliannau i'r gallu i chwilio;
- tudalennau newydd ar gyfer bywgraffiadau a gwaith yr Aelodau; a
- chynnydd yn y data a'r wybodaeth sydd ar gael ar-lein ac mewn fformat ar gyfer eu hailddefnyddio.

Rydym o'r farn y bydd y gwaith hwn yn sicrhau y bydd gwefan y Cynulliad yn fwy diddorol, defnyddiol a chyfredol. Wrth i'r cam hwn o'r gwaith dynnu at ei derfyn, rydym yn dechrau cynllunio'r rhaglen waith nesaf. Bydd y rhaglen honno'n cynnwys gwneud rhagor o welliannau i'r wefan yn ei chyfanrwydd, yn ogystal â gwneud newidiadau sefydliadol i'r ffordd yr ydym yn cynhyrchu, rheoli a chyhoeddi gwybodaeth, a newid sut y mae data'n cael eu storio. Rydym yn parhau i arddel y nod o drawsnewid y modd yr ydym yn cynhyrchu, defnyddio a rhannu holl wybodaeth y Cynulliad, a hynny er mwyn sicrhau bod y broses o chwilio am yr hyn yr ydym yn ei gyhoeddi, a'i ddefnyddio, yn llawer haws i bawb.

Byddwn yn hapus i ddarparu diweddariadau pellach i'r Pwyllgor Cyllid ynghylch y cynnydd a wneir o ran gwella'r wefan yn ystod y Pumed Cynulliad.

Yn gywir

Claire

**Claire Clancy**
**Prif Weithredwr a Chlerc/Chief Executive and Clerk**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru/National Assembly for Wales**